***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 193 (Cy.28)

# TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS I DEITHWYR, CYMRU

## Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) (Diwygio) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2 Chwefror 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *3 Chwefror 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2010* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 154(5) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000(**1**), mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) (Diwygio) 2010 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Diwygio Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2002**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2002(**2**) yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn rheoliad 3(1)(a)(i), yn lle "adran 509 o Ddeddf Addysg 1996" rhodder "adrannau 3, 4 a 6 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008".

*Ieuan Wyn Jones*
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

2 Chwefror 2010

(**1**) 2000 p.38. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) O.S. 2002/2022 (Cy.206).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn diwygio Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2002 ("Rheoliadau 2002").

Mae Rheoliadau 2002 yn diffinio "gwasanaethau bws cymwys" at ddibenion adran 154 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000. Mae'r adran honno yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu grantiau i weithredwyr gwasanaethau bws cymwys. Mae gwasanaeth bws cymwys, mewn amgylchiadau penodedig, yn cynnwys gwasanaeth a ddarperir neu a sicrheir gan awdurdod lleol at ddibenion teithio gan ddysgwyr.

Gosododd adran 509 o Ddeddf Addysg 1996 ("y Ddeddf") rwymedigaeth ar awdurdodau addysg lleol yng Nghymru i wneud trefniadau ar gyfer darparu cludiant i hwyluso presenoldeb personau sy'n derbyn addysg mewn ysgolion a sefydliadau penodol eraill. Disodlwyd adran 509 o'r Ddeddf yng Nghymru gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ("y Mesur"). Adrannau 3, 4 a 6 o'r Mesur sydd bellach yn gwneud darpariaeth o ran swyddogaethau awdurdod lleol mewn perthynas â threfniadau teithio i ddysgwyr.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 3(1)(a)(i) o Reoliadau 2002 er mwyn cyfeirio at adrannau 3, 4 a 6 o'r Mesur yn hytrach nag adran 509 o'r Ddeddf.